

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 5ed o FEHEFIN 2017 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS AM 7.00.**

**Presennol:** Ian Evans (yn y gadair), Alan Lewis, Heddwyn Jones, Tyssul Evans, Richard Thomas, Aled Williams, Geoff Hewitt, Meic Bowen, Tracey James a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

**Ymddiheuriadau:** Margaret Rees, Linda Williams a Geraint Rosser.

**Materion Personol**

**1737** Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1738 Cofnodion**

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 08/05/2017 a'r Cyfarfodydd arbennig ar 15/05/17 a'r 05/06/17 fel rhai cywir.

**1739 Materion yn codi.**

Tud 1. Cofnod Rhif 1718 - Rheilffordd Pontiets – Gobeithio y bydd y gwaith wedi gorffen mewn 6 wythnos.

Tud 1. Cofnod Rhif 1718 - Toiledau'r Meinciau - Trefnir i wneud ymholiadau pellach

Tud 1. Cofnod 1718 - Cyflymder traffig ar Stad Ffoslas – Aros am adroddiad oddiwrt y Cyngor Sir

Tud 1. Cofnod 1718 - Cysgodfa yn Llangyndeyrn - Gofyn am Gyfarfod Safle gyda Chwmni First Cymru.

**Gohebiaeth**

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

**1740** Eglwys y Santes Fair, Pontiets - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

*Cynghorwr Tyssul Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**1741** Salem Pedair Heol – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

*Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

***Cynghorwr Geoff Hewitt (Is Gadeirydd) yn y gadair***

*Cynghorwyr Tracey James, Meic Bowen a Ian Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y Cyfarfod*

**1742** Cylch Meithrin Carwe – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500,

*Tracey, Meic a Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

***Cynghorwr Ian Evans yn ôl yn y gadair***

**1743** Sioe Bancffosfelen – Llythyr yn diolch am y rhodd.

**1744** Gwendraeth Valley Charity – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

**1745** Cyngor Sir Gar – Enwebu Cynrychiolydd i Wasanaethu ar Bwyllgor Safonau'r Sir – Enwebwyd y Cynghorwr Ian Evans.

**1746** Cyngor Sir Gar – Cais am Grant Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau - .Penderfynwyd llanw'r cais yn y cyfarfod nesaf.

### **Ceisiadau Cynllunio**

**1747** Ceisiadau Cynllunio

- a) Cais Rhif W/35562 – N. Burchell – Ffarm Glynfach, Pontiets– Swyddfa Gartref - Dim Gwrthwynebiad .
- b) Cais Rhif W/35608 - CTIL - Ffarm Glan Rhyd, Pontantwn – Twr Ffon Symudol – Dim Gwrthwynebiad.
- c) Cais Rhif W/35609 – Mr Griffiths – Ffarm Rhydhywel Fawr, Crwbin– Adeilad Amaethyddol – Dim Gwrthwynebiad.

### **Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis**

**1748** Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Mai 2017. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

### **Adroddiad Ariannol Misol**

- 1749** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
- a) Cyflog y Clerc - £388.61 (Mis Mai)
  - b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mai)
  - c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £100.00 (Mis Mai)
  - ch) HMRC (Treth)- £77.60 (Mis Mai)
  - d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Mai)
  - dd) BT – Ffon y Swyddfa - £45.91 (Mis Mai)
  - e) Platiau'r Cyngor - £263.40
  - f) Inc i'r Llungopiwr - £61.20
  - ff) Lwfans y Cadeirydd - £300.00

### **Materion Cynghorwyr**

**1750 Alan** - Toiledau'r Meinciau - Gofyn i Thomas Glass am bris am gloeon amser i'r drysau

**1751 Richard** - Cysylltu eto a'r Cyngor Sir am arwyddion ym Mhontantwn tuag at Landyfaelog a Llangyndeyrn

**1750 Ian** - Cyfarfod safle ym Mhontnewydd ar 12/06/17 i edrych ar y Bont. Gweld os gallwn wneud cyfran tuag at y gwaith.

**Cyfarfod nesaf:- 3ydd o Orffennaf 2017 yn Festri Salem, Pedair Heol am 7.00 o'r gloch. (Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)**

**Llofnodwyd..... CADEIRYDD**

Dyddiad.....